A alla i gael fy nhrin yn annheg oherwydd fy rhywioldeb?

Mae yn erbyn y gyfraith i bobl sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd eich bod yn lesbiad, person hoyw neu ddeurywiol. Mae hefyd yn erbyn y gyfraith i bobl sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd eich bod yn heterorywiol. Mae'r gyfraith yn berthnasol i fusnesau, elusennau a chyrff cyhoeddus megis asiantaethau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, addysg a chyfleusterau iechyd.

Mae hefyd yn erbyn y gyfraith i gyflogwr wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd eich rhywioldeb, ond mae taflen ffeithiau arall yn trafod hyn – Beth alla i wneud os yw fy nghyflogwr yn fy nhrin yn annheg oherwydd fy rhywioldeb?

Byddai rhywun sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau yn gwahaniaethu yn eich erbyn oherwydd eich rhywioldeb os:

- ydyw'n gwrthod gwerthu rhywbeth i chi
- nad yw'n eich caniatáu i ddefnyddio gwasanaeth
- yw'n rhoi nwyddau neu wasanaethau gwaeth neu fwy drud i chi na rhywun sydd â gwahanol rywioldeb
- yw'n ymddwyn mewn ffordd anfoesgar neu anghyfeillgar.

Nid yw busnes sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer hoywon yn gorfod darparu nwyddau neu wasanaethau tebyg i bobl heterorywiol. Fodd bynnag, nid yw'n gallu gwrthod unrhyw gwsmeriaid heterorywiol. Er enghraifft, nid oes raid i siop lyfrau ddechrau gwerthu llyfrau sydd wedi'u hanelu at ddarllenwyr heterorywiol, ond nid yw'n gallu gwrthod cwsmeriaid heterorywiol sydd am brynu ei lyfrau.

Os ydych mewn partneriaeth sifil, nid yw darparwr nwyddau neu wasanaethau yn gallu eich trin yn wahanol i bâr priod. Mae'n rhaid bod nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael i barau di-briod o wahanol ryw fod ar gael ar gyfer parau o'r unrhyw nad ydynt mewn partneriaeth sifil.

Mae'r gyfraith hefyd yn ymdrin â hysbysebu. Ni all cwmni ddweud yn ei hysbysebion fod ei nwyddau a'i wasanaethau ar gael i bobl heterorywiol yn unig. Yn ogystal, ni all busnes hoyw ddweud bod pobl heterorywiol yn cael eu heithrio rhag defnyddio ei wasanaethau, er gall ddweud ei fod yn fusnes 'hoyw-gyfeillgar'.

Cewch eich amddiffyn os ydych yn dioddef o wahaniaethu oherwydd bod rhywun yn meddwl eich bod yn lesbiad, person hoyw neu ddeurywiol, hyd yn oed os nad ydych yn un o'r rhain. Cewch eich amddiffyn hefyd os gwahaniaethwyd yn eich erbyn oherwydd bod gennych ffrindiau neu deulu sy'n lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Pa fathau o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu hamddiffyn gan y gyfraith?

Ysgolion a darparwyr addysg eraill
Ni all ysgolion eich trin yn annheg os ydych yn ddisgybl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, neu os oes gan y plentyn rieni lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol. Mae'n rhaid i athrawon gydnabod eich anghenion a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, hynny yw, bwlio oherwydd eich rhywioldeb.

Gall ysgolion ffydd addysgu bod eu crefydd yn ystyried perthynas lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn anghywir. Fodd bynnag, ni ddylent wneud hyn mewn ffordd sy'n eich rhoi ar anfantais o gymharu â disgyblion eraill.

Siopau a chyfleusterau adloniant
Mae cyfleusterau adloniant yn cynnwys llefydd fel parciau thema, sinemâu, theatrau, canolfannau sglefrio ia a thraciau rasio.

Tafarndai, bwytai a chlybiau nos
Ni allwch gael eich gwrthod oherwydd eich rhywioldeb. Mae hyn yn berthnasol os ydych yn berson hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu heterorywiol. Felly, er enghraifft, ni ellir gofyn i chi adael tafarn oherwydd eich bod yn berson hoyw neu lesbiad. Yn debyg, ni all dafarn ar gyfer hoywon gwrthod mynediad i chi oherwydd eich bod yn heterorywiol. Fodd bynnag, gallant eich gwrthod os ydynt yn gwneud sylwadau cas am bobl hoyw neu os nad ydynt yn parchu'r ffaith eich bod mewn amgylchedd hoyw.

Gwestai a sefydliadau gwely a brecwast
Ni ellir gwrthod mynediad i barau un –rhyw neu eu gwrthod rhag archebu ystafell ddwbl.

Banciau a chymdeithasau adeiladu
Ni ellir gwrthod rhoi benthyciad, grant, credyd neu wasanaethau ariannol i chi oherwydd eich rhywioldeb.

Gweithredwyr twristiaeth a chwmnïau trafnidiaeth a theithio
Nid yw cwmnïau teithio yn gallu gwrthod gwerthu gwyliau i chi oherwydd eich rhywioldeb. Er enghraifft, os caiff gwyliau ei gynnig i barau yn unig, mae'n rhaid ei fod ar gael i barau heterorywiol ac un-rhyw.

Pobl sy'n darparu gwasanaethau personol neu fasnachol
Mae hyn yn cynnwys adeiladwyr a phobl sy'n darparu therapïau cyflenwol megis aciwbigo neu adweitheg.

Asiantaethau tai neu bobl sy'n gwerthu eiddo
Fodd bynnag, mae'n bosib nad yw'r gyfraith yn berthnasol i chi os ydych yn byw yn yr un eiddo â'ch landlord.

Llysoedd, cyrff llywodraethol, swyddfeydd ac asiantaethau, carchardai, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, ysbytai, meddygon teulu, cartrefi gofal

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

preswyl, a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, pobl hŷn a defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl
Mae'n rhaid bod gennych fynediad i'r gwasanaethau hyn, beth bynnag yw eich rhywioldeb. Nid oes hawl gennych i dderbyn safon waeth o wasanaeth oherwydd eich rhywioldeb.

Elusennau
Ni all elusennau eithrio pobl oherwydd eu rhywioldeb. Fodd bynnag, gallant ddarparu gwasanaethau i bobl sydd â thueddfryd rhywiol penodol os mai'r bwriad yw helpu'r grŵp hwnnw. Er enghraifft, gall elusen fodoli i gynnal hoywon digartref neu roi sesiynau cynghori i lesbiaid ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Amgylchiadau arbennig

Mewn rhai amgylchiadau, mae'r hawl gan sefydliadau i wahaniaethu:

Sefydliadau crefyddol
Gall sefydliadau crefyddol wrthod darparu gwasanaethau i chi mewn rhai amgylchiadau arbennig. Er enghraifft, gallai encilfa grefyddol eich gwrthod oherwydd eich bod yn lesbiad, person hoyw neu ddeurywiol, neu gall eglwys wrthod grŵp hoyw i gynnal cyfarfodydd ar ei safle.

Asiantaethau mabwysiadu a maethu
Gall asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol sy'n seiliedig ar gred ac asiantaethau maeth annibynnol wrthod rhoi plant yn eich gofal os ydych yn lesbiad, person hoyw neu ddeurywiol. Fodd bynnag, mae hyn yn gymwys tan ddiwedd 2008, ac mae'n rhaid iddynt eich cyfeirio at asiantaethau eraill a fydd y gallu eich helpu.

Clybiau a chymdeithasau preifat
Nid oes hawl gan glwb na chymdeithas breifat sydd â mwy na 25 aelod i wahaniaethu. Fodd bynnag, os mai ei brif bwrpas yw darparu buddiannau i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol, gall barhau i wneud hyn, yn enwedig os yw'n darparu amgylchedd preifat neu ddiogel. Er enghraifft, os mai prif bwrpas clwb pêl-droed hoyw yw darparu lle diogel i ddynion hoyw gymdeithasu yn hytrach na chystadlu mewn cystadlaethau, gallai wrthod dynion heterorywiol i ymuno os byddai hyn yn newid hanfod y clwb.

Yswiriant
Ni all yswirwyr ddefnyddio eich rhywioldeb fel yr unig amod yn erbyn peidio cynnig yswiriant i chi. Fodd bynnag, gallant ystyried eich ymddygiad rhywiol os oes yna dystiolaeth o risgiau posibl.

Rhoi gwaed
Nid oes hawl gan ddynion hoyw roi gwaed.

Beth alla i wneud os oes rhywun sy'n profi nwyddau neu wasanaethau yn gwahaniaethu yn fy erbyn?

Bydd angen i chi weithredu ar unwaith. Mynnwch gyngor gan CAB, canolfan y gyfraith neu fudiad hoywon. Mae'n bosib eich bod am wneud cwyn anffurfiol neu

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ddilyn gweithdrefn gwyno ffurfiol os oes gan y sefydliad drefn o'r fath. Os ydych yn dal yn anfodlon, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi feddwl cymryd camau yn y llys sirol.

Dylech gofio bod yna derfyn amser o chwe mis o ddyddiad y gwahaniaethu ar gyfer dechrau cymryd camau yn y llys.

Hawlio yn y llys
Os ydych yn penderfynu hawlio yn y llys, mae yna weithdrefn ffurfiol ar gyfer casglu tystiolaeth. Mae angen i chi anfon ffurflen safonol, sy'n cynnwys cwestiynau yr ydych am eu gofyn, at y cwmni, sefydliad neu'r person yr ydych yn cwyno amdano. Gall y llys ddyfarnu iawndal, ond os ydych yn colli'r achos, gellir eich gorchymyn i dalu costau cyfreithiol yr ochr arall felly sicrhewch eich bod yn deall y gweithdrefnau a'r risgiau.

Ni fyddwch yn gallu cymryd camau yn erbyn hysbysebion sy'n gwahaniaethu. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) sy'n gorfod gweithredu yn erbyn hyn. Am wybodaeth ynglŷn â'r EHRC, ewch at: www.equalityhumanrights.com.

Cymorth ychwanegol

Stonewall yw sefydliad sy'n ymgyrchu a lobio dros faterion sy'n berthnasol i lesbiaid, pobl hoyw a deurywiol. Ei wefannau yw: **www.stonewall.org.uk**, yn Lloegr, www.stonewallcymru.org.uk yng Nghymru a www.stonewallscotland.org.uk yn Yr Alban. Mae'r sefydliad yn rhedeg llinell gymorth rad ac am ddim ar: 08000 50 20 20

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Beth alla i wneud os yw fy nghyflogwr yn fy nhrin yn annheg oherwydd fy rhywioldeb?
- Cymryd camau yn erbyn gwahaniaethu ar sail rhyw
- Cymryd camau yn erbyn gwahaniaethu ar sail hil
- Gwahaniaethu ar sail anabledd
- Prynu nwyddau – eich hawliau
- Prynu gwasanaethau – eich hawliau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 19 Medi 2008, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr